# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth 14/12/2021 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (Cad) | Catrin Roberts | Gruffydd Williams | Lleucu Jones | Caren Jones |
| Mared Llywelyn Williams | Arfon Hughes | Rhys Llewelyn | Gito Williams | Pat Humphreys (Clerc) |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Carys Roberts, Alaw Llewelyn Roberts, Janice Evans, a Cais Rees Jones.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 09/11/2021
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Rhys Tudur

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Dim.

5. **Cyflwyniad GwyrddNi –** Elis Smits
   Derbyniodd y clerc ebost gan Elis Simts yn gofyn am gael dod i wneud cyflwyniad ar GwyrddNi ac fe roddwyd gwahoddiad iddo ymuno hefo'r cyfarfod heno. Mae'r clerc wedi blaenyrru'r ebost gwreiddiol i'r aelodau sy'n egluro ychydig am GwyrddNi ac hefyd mae hi wedi blaenyrru yr ebost a dderbyniodd gan Elis Smits heddiw yn atodi pamffled ar GwyrddNi. Yn anffodus oherwydd problemau technegol a cyfyngiad amser ni fedrodd Elis Smits ymuno â'r cyfarfod heno.
   Penderfyniad: y clerc i estyn gwahoddiad iddo ymuno â cyfarfod mis Ionawr a gofyn wrtho beth mae'n obeithio ei gael gan CTN, os nad yw yn gallu mynychu cyfarfod Ionawr yna iddo anfon ymateb ar ebost cyn y cyfarfod.
   Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Arfon Hughes

6. **Dynodiad Awyr Dywyll i AHNE Llŷn –** ebost Bleddyn Prys Jones, Swyddog AHNE Llŷn
   Yn dilyn pwyllgor mis Tachwedd rhoddwyd gwahoddiad i Bleddyn Prys Jones ymuno gyda'r cyfarfod heno i ateb unrhyw gwestiynnau oedd gan yr aelodau a hefyd i roi mwy o wybodaeth ar y Dynodiad Awyr Dywyll i AHNE Llŷn. Yn anffodus nid oedd yn gallu ymuno â ni heno oherwydd ymrwymiad arall ac fe yrrodd pamffled gwybodaeth i'r clerc ei rannu gyda'r aelodau.
   Penderfyniad: pasio y mis diwethaf os na fyddai Bleddyn Prys Jones yn derbyn y gwahoddiad i ymuno gyda CTN yna fe fydd y penderfyniad gwreiddiol i wrthod yn sefyll ac ni fydd yn cael ei drafod eto, felly pasiwyd bod y penderfyniad gwreiddiol i wrthod Dynodiad Awyr Dywyll i AHNE Llŷn yn sefyll ac i'r clerc yrru ebost iddo yn cyfleu hynny.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Gito Williams

7. **Cynnig yn galw ar y Llywodraeth i addasu ac i gynyddu'r gyfradd uwch o dreth tir –** Cadeirydd
   Yn dilyn y newyddion fod y Llywodraeth wedi dewis Dwyfor i beilota mesurau ar dai haf teimlir nad ydynt wedi defnyddio treth tir fel teclyn i roi mwy o decwch i bobol leol dros bobol o ffwrdd yn y

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

farchnad dai pan mae'r tai yn cael eu prynnu. Mae'r mesurau sydd gan y Llywodraeth ar dai sydd wedi cael eu prynnu yn barod ac felly nid oes tecwch fel mae'r tai yn cael eu prynnu a'r frwydyr i atal y tai rhag mynd o afael pobol leol. Yr adeg yma y llynedd fe gododd y Llywodraeth y gyfradd treth tir ar bobol sy'n prynu eu ail dŷ o 1% ac mae'r cynnig yma yn galw ar y Llywodraeth unwaith eto i godi'r gyfradd o dreth tir ar bobol sy'n prynu ail dai ond hefyd yn ei addasu fel bod y dreth tir yn uwch i ail dai sydd yn cael eu prynu fel tai haf. Y broblem hefo'r treth tir ar y funud ydi os yw landlord yn prynu tir i'w osod allan i bobol lleol ar rent teg yna mae'n dal yn gorfod talu'r treth tir uwch, hefyd os yw person lleol yn etifeddu siar o dŷ ar ol marwolaeth rhiant ac yna eisiau prynu tŷ eu hunain yna fe fydd rhain hefyd yn gorfod talu treth tir uwch sy'n anheg ac ni ddylsant gael eu rhoi yn yr un cwch a'r rhai sy'n prynnu eu ail dŷ i'w ddefnyddio fel tŷ haf. Felly y cynnig yw i yrru llythyr i'r Llywodraeth yn galw arnynt unwaith eto i godi'r gyfradd uwch o dreth tir ond eu bod yn ei addasu fel ei fod yn uwch ar gyfer pobol sy'n prynu tai haf fel eu bod yn cael eu gwyntyllu allan a'u trethi yn uwch a bod categori penodol ar eu cyfer ar wahan i bobol leol sydd mewn amgylchiadau arbennig. Byddai modd dwyn y cynnig i sylw'r wasg hefyd. Er bod yr aelodau yn cytuno gyda'r cynnig 100% cafwyd awgrym efallai fod yr amseriad yn anghywir gan ein bod bron iawn o fewn gafael i'r Llywodraeth newid y Ddeddf Gynllunio a pedwar ymgynghoriad ar y gweill felly fe fyddai cynnig arall yn creu dryswch.
Penderfyniad: pasiwyd i yrru llythyr i'r Llywodraeth yn eu atgoffa eu bod wedi codi'r gyfradd treth tir y llynedd ac iddynt ystyried ei godi eto ond gyda addasiad ar gyfer pobol sy'n prynu eu ail dai ar gyfer tai haf er mwyn gwarchod pobol leol, pasiwyd hefyd i beidio tynnu sylw'r wasg ato.
Cynnig: Rhys Llewelyn Eilio: Rhys Tudur

8. **Cynllun Peilot Dwyfor i reoli tai haf-unedau gwyliau –** Gruffydd Williams
Cafwyd diweddariad gan y cadeirydd ar y cynllun peilot sydd ar hyd a lled Dwyfor sef yr ardal sydd hefo'r dwysder niferoedd tai haf ar ei uchaf drwy Gymru gyfan. Fel rhan o'r peilot yma mae dau ymgynghoriad sy'n mynd law yn llaw ac yn dod i ben ym mis Chwefror felly mae'r cadeirydd am yrru'r linc i'r clerc i rannu'r ymgynghoriadau yma gyda'r aelodau ar ôl y pwyllgor ac yn eu hannog i'w llenwi. Datgannodd yr aelod lleol ei fod yn hynod falch fod aelodau CTN wedi rhoi yr amser i wrando â pasio'r cynnigion i gyd er mwyn mynd a'r mater yma ymlaen ac mae'n diolch i'r aelodau i gyd. Diolchodd un o'r aelodau i'r cadeirydd am ei holl waith hefyd ac i gael y Llywodraeth i wrando a dewis Dwyfor er mwyn cael datrysiad i'r broblem yma.

9. **Ymgynghoriad ar newid y Ddeddf Gynllunio -** Gruffydd Williams
Mae'r ymgynghoriad yma ar y gweill hefyd gyda'r bwriad o allu gosod dosbarth defnydd penodol ar gyfer tŷ haf er mwyn eu rheoli a gosod cap ar y niferoedd ym mhob cymuned lle nad ydynt yn mynd yn ormod nes ei fod yn lladd cymunedau. Mae'r cadeirydd yn annog yr aelodau eto i lenwi'r holidaur yma i fewn ac am rannu'r linc gyda'r clerc iddi hi ei anfon ymlaen i'r aelodau.

10. **Antur Waunfawr – cynllun ailddefnyddio/ailgylchu tecstiliau**
Cafodd ebost gan Antur Waunfawr ei flaenyrru i'r clerc gan yr aelod lleol yn gofyn am gael gosod banc dillad yn rhywle yn Nefyn i gymeryd lle yr un oedd yn arfer bodoli yn y maes parcio ar Ffordd Dewi Sant yn y gorffennol. Mae yna un yn Ysgol Nefyn a Morfa yn barod ac maent yn cael arian yn ôl am y dillad felly os y byddai CTN yn gallu gosod un yn Nefyn byddai modd iddyn nhw gael arian yn ôl hefyd am y dillad a'i roi at elusen o'u dewis nhw. Mae Antur Waunfawr yn cymeryd y

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

cyfrifoldeb amdanynt ac yn mynd i'w monitro yn wythnosol ac ni fydd unrhyw gost amdanynt yn disgyn ar CTN.
Penderfyniad: gan nad oedd yr aelodau yn gallu meddwl am dir yn Nefyn i leoli'r banc dillad pasiwyd i gyfeirio Antur Waunfawr at y Ganolfan yn Nefyn, Morfa ac Edern gan fod y rhain yn ganolog ym mhob pentref ac yn hawdd i bobol fynd a dillad yno.

**11. Cyllideb 2022-2023**

Fel y soniwyd y mis diwethaf mae'r Is-bwyllgor Ariannol wedi cael cyfarfod ac wedi creu cyllideb drwy edrych ar y gwariant am y flwyddyn llawn ddiwethaf sef 2020-2021 a gwariant 2021-2022 hyd yma a cafwyd eglurhad o'r ffigyrau gan y cadeirydd a'r unig ffigwr sydd angen penderfyniad y mis yma yw'r Clwb Ieuenctid. Derbyniwyd gwybodaeth gan yr aelod lleol bod cyfarfod yn mynd i gael ei gynnal i drafod y clwb ieuenctid yn Nefyn gan yr Heddlu a Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd ond wedi deallt dim cyfarfod oedd o ond noson 'Galw Heibio' a oedd yn rhoi cyfle i ieuenctid yr ardal droi fewn i siarad gyda'r heddlu a'r Gwasanaeth Ieuenctid ond yn anffodus dim ond 3 person wnaeth droi fyny ar y noson.
Cafwyd gwybodaeth gan un o'r aelodau y bydd Cwmni'r Fran Wen yn dod i wneud gweithgareddau hefo'r ieuenctid yn Nefyn mis Ionawr a rhagwelir y bydd y gweithgareddau yma yn mynd ymlaen tan y gwanwyn ac yna fe fydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn dod yn ôl i Nefyn yn dilyn gweithgareddau Cwmni'r Fran Wen felly petai'r clwb yn ail gychwyn ni fydd yn debygol o ddigwydd tan ar ôl hynny.
Penderfyniad: peidio clustnodi arian ar gyfer y clwb ieuenctid ar y gyllideb ond os fydd y clwb yn ail agor ymhellach ymlaen yn y flwyddyn yna y bydd CTN yn defnyddio'r arian wrth gefn sydd ganddynt i'w ariannu.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffydd Williams
Cafwyd cais am wybodaeth ynglŷn â'r arian sydd wedi cael ei glustnodi ar gyfer blodau Nefyn, Morfa ac Edern ac os nad yw'r arian wedi cael ei ddefnyddio i gyd y flwyddyn yma yna i'r clerc adael i'r aelodau wybod faint sydd ar ôl fel bod yr arain yn cael ei wario cyn diwedd y flwyddyn ariannol yma. Gan nad yw'r ffigwr wedi cael ei wario i gyd y flwyddyn yma yna ni fydd y ffigwr yma yn cael ei godi y flwyddyn nesaf gan ei fod yn ddigonol.
Penderfyniad: derbyniwyd y gyllideb ac awgrymu praesept o £79,500.00.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Catrin Roberts

**12. Cynnal Cyfarfodydd Aml-leoliad** – Clerc

Cafwyd cais gan un o'r aelodau y mis diwethaf i ddechrau cynnal cyfarfodydd CTN yn ôl yn Siop Siarad felly fe ffoniodd y clerc Un Llais i gael y cyngor diweddaraf ar gynnal cyfarfodydd. Yr unig fath o gyfarfodydd a ganiateir ar y funud yw drwy zoom neu cyfarfodydd aml-leoliad sef 'hybrid' gan na chaniateir i niferoedd mawr o aelodau gyfarfod mewn un lleoliad. Cyfarfod aml-leoliad yw canran o aelodau yn cyfarfod yn Siop Siarad a'r gweddill yn ymuno drwy zoom drwy laptop y Cyngor Tref felly fe fydd angen band eang i fedru cynnal y math yma o gyfarfod.
Penderfyniad: cario ymlaen i gyfarfod ar zoom.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gito Williams

**13. Mynwent Morfa Nefyn –** estyniad i'r fynwent – diweddariad – Clerc

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf fe gysylltodd y clerc gyda Un Llais i gael arweiniad ar y mater a'r ymateb a gafodd y clerc oedd na dim ond Cyngor Gwynedd sydd â'r pŵer i wneud GPG ar ran

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

Cyngor Tref/Cymuned a bod hyn yn ôl eu disgresiwn yn unig, nid oes raid iddynt wneud. Mae GPG yn broses ddrud iawn ac o ystyried y sefyllfa ariannol bresennol fe fydd yn anodd perswadio Cyngor Gwynedd i ddechrau'r broses felly maent yn awgrymu i ni ofyn i'r aelod lleol siarad hefo Cyngor Gwynedd ar ein rhan. Mae'r aelod lleol wedi siarad hefo pennaeth Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd Iwan Evans gan fod yna gymal yn y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn dweud mai'r Awdurdod Lleol sydd i fod i weithredu GPG ar ran Cynghorau Tref/Cymuned ac os nac ydynt yn gallu ymrwymo i hyn yna byddai rhaid i CTN gysylltu gyda'r Llywodraeth i gael arweiniad pellach ar y mater. O ganlyniad i'w sgwrs fe wnaeth Iwan Evans ein cynghori i wneud cais ffurfiol i'r Adran Gyfreithiol i weithredu GPG ar ein rhan ac mae'r clerc wedi gwneud hynny ers 16eg o Tachwedd ond heb glywed dim yn ôl, felly fe gysylltodd hi eto ar y 6ed o Rhagfyr yn gofyn am ymateb cyn y pwyllgor heno ond eto does dim byd wedi ei dderbyn. Mae'r aelod lleol am edrych eto ar y Ddeddf ac anfon copi ohoni i'r cadeirydd ac am fynd ar ôl Iwan Evans hefyd i geisio cael ymateb ganddo ar y mater.

**14. Llwybrau** – Gruffydd Williams

- **Llwybr Aberafon**
  Mae'r aelod lleol wedi cychwyn y broses o gyfreithloni'r llwybr yma ac wedi derbyn 50 o ffurflenni yn tystiolaethu fod pobol wedi bod yn ei ddefnyddio dros gyfnod hir o amser ac mae llythyr wedi cael ei anfon i Haulfryn Group ac mae yr hawl i hawlio hawl tramwy wedi cael ei anfon i Adran Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd.
- **Llwybr o Tai Lôn i Ty'n y Mynydd**
  Mae'r llwybr yma mewn un rhan yn croisi lle gwlyb ofnadwy felly mae'r aelod lleol wedi gofyn am gyfarfod safle hefo Dewi Wyn Owen er mwyn iddynt gael gweithio allan lle yn union mae llinell y llwybr.
- **LLwybr Penrallt ochor Gwesty Cliffs a Nefyn**
  Mae llwybr Penrallt ochor gwesty Cliffs yn fater sy'n mynd ymlaen ac ymlaen ers amser bellach ond mae Wyn Williams yn credu y bydd hwn wedi cael ei roi yn ei le erbyn y nadolig. Hefyd mae'r aelod lleol wedi cael cadarnhad y bydd llwybr Penrallt ochor Nefyn wedi cael ei agor cyn y nadolig. Maent yn bwriadu tynnu y fainc sydd wrth ymyl y tir lithriad a'i gosod hi ar safle arall a rhoi strwythur haearn i ddal ffens gyda llinell y llwybr a fydd yn ddigonol yn ol yr adran i fedru ail agor y llwybr.
  Cafwyd cwyn hefyd fod rhwystr ar draws llinell llwybr sydd yn mynd heibio safle yr Eglwys Gatholig yn Morfa Nefyn felly mae'r clerc am gysylltu hefo'r adran berthnasol i basio'r cwyn ymlaen.

**15. Gardd y Llyfrgell –** Gruffydd Williams

Mae creu gardd y tu allan i'r llyfrgell wrth y goeden wedi cael ei drafod o'r blaen ond nid oes dim wedi ei wneud ynglŷn â'r mater felly mae'r aelod lleol wedi codi y mater eto. Y bwriad yw tirlunio a rhoi meinciau ar y llecyn o gwmpas y goeden fel fod pobol sy'n defnyddio'r llyfrgell yn gallu mynd y tu allan i eistedd i ddarllen. Cafwyd cais gan un o'r aelodau y dylid gwneud asesiad llawn o'r goeden cyn penderfynnu dim oherwydd ar ôl y gwyntoedd cryfion yn dilyn storm Arwen mae dipyn o frigau wedi disgyn felly mae angen gweld pa mor saff ydi hi yn gyntaf. Hefyd awgrymodd y dylid cyfyngu defnydd o'r ardd â'r meinciau i ddefnyddwyr y llyfrgell yn unig ac nid yn cael ei defnyddio gan y ieuenctid ac awgrymodd yr aelod lleol fod y giat sydd ar y ffens o amgylch y llecyn yn cael ei chloi tu allan i oriau agor y llyfrgell.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn wrthynt wneud asesiad llawn ar y goeden ac hefyd iddynt edrych ar y les i weld pa hawliau sydd gan CTN ar y tir o amgylch y goeden i osod meinciau yno.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes

**16. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

- **Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2022 –** cais am gyfraniad ariannol
  Penderfynwyd ei drafod ym mhwyllgor mis Ionawr.
  Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gito Williams

**17. Ceisiadau Cynllunio**

- **C19/1136/42/CR –** Whitehall, Porthdinllaen – Gosod bracedi ar gefn yr adeilad a shutters er gosod bordiau llifogydd.
  Penderfyniad: Sylwadau – mae angen sicrhau fod hawl y cyhoedd sy'n cerdded y llwybr cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod strwythur yn ei le fel fod cerddwyr yn gallu mynd drosto yn rhwydd.
  Cynnig: Gito Williams Eilio: Catrin Roberts
- **C21/1133/42/CC –** Rhos Bridin, Lôn Penrhos, Morfa Nefyn – Tocio at uchder bob-docio un onnen aeddfed sydd â salwch gwywo ynn ac sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed.
  Penderfyniad: Cefnogi.
  Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Rhys Llewelyn
- **C21/1128/42/LL –** Goleufryn, Lôn Uchaf, Morfa Nefyn – Rhannol ddymchwel estyniadau cefn presennol a chodi estyniad unllawr newydd.
  Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
  Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Catrin Roberts

Ceisiadau Diweddarach
**C21/1107/42/LL** – Gwynle, Lôn Isaf, Morfa Nefyn – Dymchwel tŷ annedd presennol a chodi tŷ annedd newydd yn ei le.
Penderfyniad: Sylwadau – hoffem weld yr eiddo yn dŷ fforddiadwy.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Catrin Roberts

**18. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1035.49
- Nefyn Foods - rent Siop Siarad - £780.00
- Pat Humphreys – Ad-daliad CD Carolau a Chaneuon y Nadolig - £14.99 – siec wedi ei diddymu – Rhys Llewelyn wedi ei phrynu gan y clerc.
- Dŵr Cymru – Treth dŵr Mynwent Nefyn - £72.89
- Ashley Hughes – Offer swyddfa - £13.86
- D. M. Parry – Pumed taliad mynwent Nefyn - £850.00 & gwaith ychwanegol yn mynwent Nefyn - £100.00 = £950.00
- E-On Next – Trydan Siop Siarad mis Tachwedd - £124.73
- Cliff Hughes – Taliad rhif 7 cytundeb llwybrau - £1075.00

- N Power – Trydan Llyfrgell Nefyn mis Tachwedd - £186.96
- HMRC – PAYE Mis 8 - £181.75

Penderfyniad: Talu pob anfoneb
Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Rhys Tudur

**19. Taliadau wedi eu derbyn**

- Cau cyfrif BIG - £10340.00
- Cau cyfrif Cynilo - £90067.78
- Cau cyfrif Nefyn School Trust Fund - £52.06
- Cau cyfrif Mynydd Bach - £520.36
- G. D Roberts – Angladd Robert Hicks - £960.00
- Osian Hughes – rent cae fynwent Nefyn - £150.00
- Dewi Thomas – Angladd Michael Stephen Coles - £950.00
- Parry, Davies, Clwyd-Jones a Lloyd – Gwerthiant tir ger Cae Coch Morfa Nefyn - £615.00